

Gwyddoniaeth Gwych

Pa ddefnydd ydi'r gorau i wneud côt law i Siôn Corn?



D.D.

Defnyddio y pethau rydw i'n eu gwybod i'm helpu i ddyfalu canlyniad.

M.P.LI.

- Gallu cymharu ac egluro'r gwahaniaeth rhwng gwahanol ddeunyddiau.
 - Dod i ddeall bod rhai deunyddiau yn fwy gwrth-ddŵr nac eraill.
 - Cadw'r bwrdd yn sych.

1. Daliwch y deunydd at y golau.

Ydych chi'n gallu gweld drwy'r defnydd o gwbl?

polyester glas

gwlan

cotwm llwyd

denim

2. Pa un o'r deunyddiau yw'r un mwyaf tylllog?

(tylllog = gyda'r mwyaf o dyllau)

3. Beth yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y polyester a'r denim?

4. Beth yw'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y cotwm a'r gwlan?

Rhagfynegi

5. Beth yw ystyr y gair 'rhagfynegi'?

6. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y côf law orau i Siôn Corn?

7. Egluro: Pam ydych chi'n dweud hynny?

8. Eglurwch beth mae'r term 'gwrth-ddŵr' yn ei olygu:

Amser arbrofi

Wrth gynnal arbrawf mae'n rhaid cadw rhai pethau yr un fath o hyd, fel ein bod yn gallu cymharu pethau'n deg.

Yr enw ar hyn yw cynnal **Prawf Teg**.

Heddiw byddwn y cadw'r cyfaint dŵr sy'n cael ei dywallt ar y deunyddiau yr un fath sef 50ml. Hefyd mi fydd yr amser yn aros yr un peth, sef 1 munud.

Y deunyddiau yw'r pethau fydd yn newid yn yr arbrawf.

8. Nodwch faint o ddŵr aeth drwy'r deunyddiau mewn munud:

ml = mililitr

gwlan ml

denim ml

polyster glas ml

cotwm llwyd ml

Casgliad


Y defnydd i wneud y gôt law orau i Siôn Corn, a pham, yw:

Eglura pam:

Beth sydd yn gwneud arbrawf yn Brawf Teg

Cofnodwch eich mesuriadau yn JiT5 ar Hwb

Côt law Siôn Corn (ac enw'r plentyn)



Tynnwch lun o Sîon Corn yn ei gôt newydd, yn y glaw:

